

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**22/11/2006**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Questions to the Minister for Health and Social Services**

**Gwella'r Gwasanaeth Iechyd (Merthyr Tudful a Rhymni)**  
**Improving the Health Service (Merthyr Tydfil and Rhymney)**

**Q12 Huw Lewis:** What are the Welsh Assembly Government's priorities for improving the health service in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ1103(HSS)

**C12 Huw Lewis:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella'r gwasanaeth iechyd ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ1103(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** Proposals for the future of health services in south-east Wales have been developed by the NHS and partner organisations in the region, and were made available for full public engagement in the document, 'Reshaping your local Health Services: Developing a Plan for South East Wales'.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Datblygwyd cynigion ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yn y de-ddwyrain gan y GIG a'i bartneriaid yn y rhanbarth, ac maent ar gael i'r cyhoedd yn y ddogfen, 'Llunio eich Gwasanaethau Iechyd Lleol: Datblygu Cynllun ar gyfer De Ddwyrain Cymru'.

**Gwahardd Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus**  
**Banning Smoking in Public Places**

**Q13 Jeff Cuthbert:** Will the Minister give an update on the Welsh Assembly Government's plans to ban smoking in public places? OAQ1112(HSS)

**C13 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wahardd ysmygu mewn manau cyhoeddus? OAQ1112(HSS)

**Brian Gibbons:** We are making excellent progress. Scrutiny of the draft regulations will begin later this month. We aim to bring

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn gwneud cynnydd ardderchog. Bydd y broses o graffu ar y rheoliadau drafft yn dechrau'n hwyrach

the ban into force on 2 April 2007. Work to encourage smoking cessation, publicise the ban, and put enforcement arrangements in place is being taken forward in partnership with key stakeholders.

y mis yma. Y nod yw dod â'r gwaharddiad i rym ar 2 Ebrill 2007. Caiff y gwaith o annog pobl i roi'r gorau i ysmegu, rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaharddiad, a rhoi trefniadau gorfodi ar waith ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

### **Blaenoriaethau Cyllido ar gyfer Iechyd Funding Priorities for Health**

**Q14 Helen Mary Jones:** Will the Minister identify the Welsh Assembly Government's funding priorities for health? OAQ1144(HSS)

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer iechyd? OAQ1144(HSS)

**Brian Gibbons:** In 2006-07, our priorities have been to continue with pay modernisation, to implement new primary care contracts, to reduce prescription charges and to further reduce waiting times. We are also taking forward the reform of the NHS in line with 'Designed for Life'.

**Brian Gibbons:** Yn 2006-07, ein blaenoriaethau yw parhau â moderneiddio cyflogau, gweithredu contractau gofal sylfaenol newydd, lleihau taliadau presgripsiynau a lleihau amseroedd aros ymhellach. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r broses o ddiwygio'r GIG yn unol â 'Cynllun Oes'.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ1136(HSS), yn ôl.  
Question 15, OAQ1136(HSS), withdrawn.*

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

#### **Gwella'r Ddarpariaeth o Gyfleusterau Chwaraeon Enhance the Provision of Sporting Facilities**

**Q12 Christine Chapman:** What plans are there to enhance the provision of sporting facilities in Cynon valley? OAQ1019(CWS)

**C12 Christine Chapman:** Pa gynlluniau sydd i wella'r ddarpariaeth cyfleusterau chwaraeon yng nghwm Cynon? OAQ1019(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** Our Active Lifestyles capital programme will support several projects in the Cynon valley, providing doorstep activity opportunities for several communities. The projects will be delivered in partnership with Rhondda Cynon Taf County Borough Council and the local health board.

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Bydd ein rhaglen gyfalaf, Ffyrdd Gweithgar o Fyw, yn cefnogi sawl prosiect yng nghwm Cynon, gan ddarparu cyfleoedd i sawl cymuned gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol. Bydd y prosiectau'n cael eu cyflenwi ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r bwrdd iechyd lleol.

#### **Defnydd Ehangach o'r Gymraeg A Wider use of the Welsh Language**

**Q13 William Graham:** Will the Minister outline discussions he has held with

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gafodd

representatives of cross-border communities on promoting a wider use of the Welsh language? OAQ1028(CWS)

gyda chynrychiolwyr cymunedau trawsffiniol ynglŷn â hyrwyddo defnydd ehangach o'r Gymraeg? OAQ1028(CWS)

**Alun Pugh:** I have had no specific discussions, but, as part of the Assembly Government's commitment to creating a fully bilingual Wales, we are working hard to promote the Welsh language to all of the people of Wales, in every part of Wales, including border areas.

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol, ond fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru gwbl ddwyieithog, yr ydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith holl bobl Cymru, ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys ardaloedd ar y gororau.

### **Ddeddf Iaith Newydd A New Welsh Language Act**

**C14 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau diweddar mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynglŷn â'r angen am Ddeddf iaith newydd? OAQ1059(CWS) [W]

**Q14 Helen Mary Jones:** What recent discussions has the Minister had regarding the need for a new Welsh language Act? OAQ1059(CWS) [W]

**Alun Pugh:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'r un cwestiwn yn union ar 18 Hydref. Nid oes dim wedi newid ers hynny.

**Alun Pugh:** I refer you to the answer that I gave you to exactly the same question on 18 October. Nothing has changed since then.

### **Cynyddu Gweithgareddau Chwaraeon a Chorfforol Increasing Sport and Physical Activity**

**Q15 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on progress in increasing sport and physical activity in our more deprived communities? OAQ1010(CWS)

**C15 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw welliant o ran cynyddu gweithgareddau chwaraeon a chorfforol yn ein cymunedau mwyaf amddifad? OAQ1010(CWS)

**Alun Pugh:** Our 'Climbing Higher' strategy recognises that people in poorer communities are less likely to participate in sport. We are therefore adopting more opportunities for people living in deprived communities to engage in sport and physical activity, such as the regeneration challenge and the Active Lifestyles community capital programme.

**Alun Pugh:** Mae ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' yn nodi'r ffaith fod pobl mewn cymunedau tlotach yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon. Felly, yr ydym yn datblygu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n byw mewn cymunedau amddifad gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol, fel yr her adfywio a'r rhaglen gyfalaf cymunedol, Ffyrdd Gweithgar o fYw.